

Adroddiad **Blynyddol**

2025-2026

wsa
Welsh Sports Association
Cymdeithas Chwaraeon Cymru



Cyflwyniad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd, mae'n bleser gen i unwaith eto gyflwyno Adroddiad Blynyddol y WSA ac adlewyrchu ar flwyddyn arall o gynnydd cadarnhaol i'n sefydliad a'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol ehangach yng Nghymru.



Lynn Pamment CBE
Chair, WSA

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r WSA wedi parhau i gyflawni ei gweledigaeth o genedl fywiog, actif drwy rymuso ein haelodau i fod yn gryfach, yn wydnach ac yn fwy llwyddiannus. Drwy ein gwasanaethau, ein digwyddiadau, ein partneriaethau a'n gwaith eiriolaeth, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar greu gwerth i'n haelodau wrth helpu i gryfhau gallu'r sector i ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n newid.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n cyfrannu at lwyddiant y WSA. Mae ein tîm o staff yn parhau i ddangos proffesiynoldeb, ymroddiad ac arbenigedd eithriadol wrth gefnogi ein haelodau, ac mae'r Bwrdd yn darparu'r arweinyddiaeth strategol a'r llywodraethu sy'n sicrhau bod y sefydliad yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni gwerth ac effaith yn y tymor hir.

Hoffwn hefyd estyn fy nioch diffuant i Fergus Feeney a Mark Tweed, a ymddeolodd o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ar ôl cwblhau'r uchafswm o wyth mlynedd o wasanaeth. Drwy gydol eu cyfnod maent wedi gwneud cyfraniad eithriadol at y WSA, gan ddarparu gwybodaeth, arweiniad ac ymrwymiad amhrisiadwy. Ar ran y Bwrdd a'r aelodaeth ehangach, hoffwn fynegi ein diolchgarwch am eu gwasanaeth rhagorol a dymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Mae eleni'n nodi diwedd ein cylch strategol blaenorol. Wrth edrych yn ôl, mae llawer i fod yn falch ohono. Dros gyfnod y strategaeth, mae'r WSA wedi cryfhau ei safle fel partner dibynadwy i'r sector, wedi ehangu ei gwasanaethau, wedi cynyddu cyfleoedd i gydweithio ac wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol sydd wedi bod o fudd i'n haelodau a'n cymunedau ledled Cymru.

I gofnodi'r siwrnai hon, yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi graffeg gwybodaeth effaith yn dangos y cyflawniadau a'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy gydol y cyfnod strategol. Mae'r canlyniadau'n dangos yr effaith gyfunol y gellir ei chyflawni pan fydd aelodau, partneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio tuag at weledigaeth a rennir.

Wrth i ni edrych ymlaen at y cyfnod strategol nesaf, mae'r amgylchedd y mae ein haelodau'n gweithredu ynddo'n parhau i esblygu. Y tu hwnt i'r flwyddyn adrodd hon, rydym wedi gweld newid gwleidyddol sylweddol, o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws tirlun ehangach y DU, ochr yn ochr â phwysau economaidd parhaus sy'n parhau i effeithio ar sefydliadau a chymunedau ledled Cymru. Er bod newid yn anochel yn dod ag ansicrwydd, mae'r arwyddion cynnar gan Lywodraeth newydd Cymru wedi bod yn galonogol. Mae cydnabyddiaeth gynyddol i'r rôl bwysig y mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ei chwarae wrth wella iechyd, lles a chydlyniant cymunedol. Rydym hefyd wedi cael ein calonogi gan yr ymgysylltu cadarnhaol a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a'n haelodau i sicrhau bod llais y sector yn parhau i gael ei glywed.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cydweithio'n helaeth gyda'n haelodau drwy gyfres o sesiynau ymgynghori, ar-lein ac wyneb yn wyneb, i helpu i lunio ein Cynllun Strategol newydd. Rydym wedi gwrandao'n ofalus ar yr heriau a'r cyfleoedd a nodwyd gan ein haelodau ac wedi defnyddio'r adborth hwn fel sail i'n blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u gwybodaeth. Fel bob amser, ein huchelgais ni yw sicrhau bod y WSA yn parhau i fod yn ymatebol, yn berthnasol ac yn canolbwyntio ar gefnogi aelodau i ffynnu mewn Cymru sy'n newid.

Fel sefydliad aelodaeth, mae popeth rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar gefnogi ein haelodau. Eich ymddiriedaeth, eich ymgysylltu a'ch ymrwymiad yw sylfaen ein llwyddiant, a hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth i ni ddechrau gweithredu ein Cynllun Strategol newydd, rwy'n gyffrous am y cyfleoedd sydd o'n blaen. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i adeiladu sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol cryfach, mwy cynaliadwy a gydnach i Gymru.

Neges gan y Prif Swyddog Gweithredol



Andrew Howard, PSQ, WSA

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o gynnydd, gwydnwch ac adlewyrchu i Gymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA). Wrth i'r gofynion ar ein sector barhau i esblygu, mae ein ffocws wedi parhau'n gadarn ar ddarparu gwerth i aelodau, cryfhau cydweithredu, a sicrhau bod sefydliadau chwaraeon a hamdden ledled Cymru'n cael y gefnogaeth sydd arnynt ei hangen i ffynnu.

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau, y partneriaethau a'r rhwydweithiau sy'n helpu i greu sector gwydnach. Er i ni brofi rhywfaint o darfu ar ein gwasanaeth cyllid yn dilyn cyfnod o newidiadau staff, hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu hamynedd a'u dealltwriaeth yn ystod yr amser hwn. Yn anochel, daeth recriwtio a chroesawu â heriau ychwanegol, ond rydym bellach wedi cryfhau'r tîm ymhellach ac rydym yn hyderus y bydd y buddsoddiadau hyn yn gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Drwy gydol y cyfnod hwn, fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ar y rheswm pam y sefydlwyd ein model gwasanaeth a rennir yn y lle cyntaf: i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, cost-effeithiol sy'n helpu ein haelodau i gael y gorau o adnoddau a chyfeirio mwy o fuddsoddiad i chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae darparu gwerth, cefnogi cydweithredu, a chryfhau gwydnwch sefydliadol yn parhau i fod wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Mae llais yr aelodau'n parhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgynghori ar y strategaeth gydag aelodau, wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i gasglu adborth a deall yn well yr heriau sy'n wynebu sefydliadau ledled Cymru wrth i ni edrych ymlaen at gylch strategol newydd. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd. Mae eich gonestrwydd, eich gwybodaeth a'ch parodrwydd i ymgysylltu yn helpu i siapia ein blaenoriaethau a sicrhau ein bod yn parhau i ymateb i anghenion y sector.

Mae cydweithredu'n parhau i fod yn un o'n cryfderau mwyaf. Unwaith eto, daeth ein digwyddiadau blaenllaw ag aelodau a phartneriaid at ei gilydd i ddathlu llwyddiant, rhannu dysgu, ac ysbrydoli arloesedd. Denodd Gwobrau Diwydiant Chwaraeon y WSA, y Gynhadledd Cynaliadwyedd, a'n digwyddiad gyda'i ffocws ar y WSA fel rhan o Wythnos Cymru Llundain gefnogaeth gref a dangos y dyhead sy'n bodoli am gyfleoedd ystyrlon i gysylltu ar draws y sector.

Yn weithredol, roedd y flwyddyn yn garreg filltir arwyddocaol arall i Vibrant Nation. Fe wnaethom brosesu mwy na 24,000 o archwiliadau'r DBS, y nifer uchaf i'w cofnodi ers i'r gwasanaeth gael ei lansio yn 2017. Mae'r twf hwn yn adlewyrchu'r hyder sydd gan aelodau yn ein gwasanaeth ac yn cadarnhau ein safle fel y prif ddarparwr archwiliadau DBS nid-er-elw yng Nghymru, gan gyflawni gwerth rhagorol a chynnis gwasanaeth cwbl ddwyieithog, a chynnal ein hymrwymiad i ansawdd a hygyrchedd.

Yn ogystal â'n gwasanaethau craidd, parhaodd Mudiad Chwaraeon Cymru i ddatblygu ac ehangu ei effaith. Fe wnaethom lwyddo i sicrhau grant o £100,000 gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Arloesi ym maes Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau, a chyflwyno prosiect a roddodd gyfle i fwy na 350 o blant a phobl ifanc o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, sicrhawyd hefyd £100,000 o gyllid cyfatebol gan Sefydliad Moondance, sy'n ein galluogi i barhau i gefnogi plant ledled Cymru y tu hwnt i gyfnod y grant gwreiddiol ac i ymestyn cyrhaeddiad a

gwaddol y rhaglen. Hefyd fe wnaethom gyflwyno ail rownd Cronfa Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon Admiral, gan ddyfarnu £100,000 ychwanegol ym mis Mawrth i bum sefydliad sy'n aelodau o'r WSA. Mae'r buddsoddiadau hyn yn helpu sefydliadau ledled Cymru i gymryd camau ystyrlon o ran cynaliadwyedd, gan ddangos y rôl gadarnhaol y gall chwaraeon ei chwarae wrth fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Wrth i ni gyrraedd diwedd ein cylch strategol blaenorol, manteisiwyd ar y cyfle i adlewyrchu ar yr effaith sydd wedi'i chyflawni ar y cyd dros y blyneddau diwethaf.

Cyhoeddwyd graffig gwybodaeth gennym yn tynnu sylw at y cynnydd ar y cyd a wnaed ar draws y sector drwy ein gwasanaethau, ein partneriaethau, ein digwyddiadau, ein rhaglenni cyllido a'n gwaith eiriolaeth. Mae'r cyflawniadau sydd wedi'u nodi ynddo'n dystiolaeth nid yn unig o waith y WSA, ond hefyd o gryfder ac ymrwymiad ein haelodau, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, sydd wedi cofleidio cydweithredu ac wedi helpu i sbarduno newid cadarnhaol ar draws y byd chwaraeon a hamdden yng Nghymru.

Yn ariannol, mae'r WSA yn parhau mewn sefyllfa gref, gyda'r cronfeydd wrth gefn yn bodloni gofynion ein Polisi Cronfeydd wrth Gefn yn gyffredinol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer twf yn y dyfodol. Fodd bynnag, cofnodwyd colled gennym am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd costau staffio a recriwtio ychwanegol wrth i ni ymateb yn gyflym i newidiadau yn y tîm a sicrhau parhad gwasanaeth i aelodau. Er bod y rhain yn fuddsoddiadau angenrheidiol, cafodd effaith ar ein perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi pennu cyllideb realistig y mae posib ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, ac rydym yn hyderus y bydd hyn yn ein galluogi i adfer y cronfeydd wrth gefn i'w lefelau blaenorol, gan barhau hefyd i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i aelodau.

Ni fyddai unrhyw un o'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb ymrwymiad a chefnogaeth cynifer o bobl. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n tîm ymroddedig o staff, y mae eu proffesiynoldeb a'u penderfyniad yn parhau i yrru'r sefydliad yn ei flaen; i'n Bwrdd, am eu harweiniad a'u harweinyddiaeth strategol; i'n haelodau a'n partneriaid, am eich ymddiriedaeth, eich ymgysylltu a'ch cydweithrediad parhaus; ac i Chwaraeon Cymru, am eu cefnogaeth drwy gyllid craidd parhaus a'u cred yng ngwerth ein gwaith. Gyda'n gilydd, rydym yn parhau i greu sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol cryfach, mwy cysylltiedig, mwy diogel a gwydnach i Gymru.

Wrth i ni edrych yn ôl gyda balchder ar lwyddiannau ein cylch strategol blaenorol, rydym yr un mor gyffrous am y cyfleoedd sydd o'n blaen. Mae ein Cynllun Strategol newydd yn darparu map ffordd clir ac uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, ac edrychwn ymlaen at weithio ochr yn ochr â'n haelodau, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i'w gyflawni.

Diolch i chi am fod yn rhan o'r siwrnai hyd yma, ac edrychwn ymlaen at lunio'r bennod nesaf gyda'n gilydd.

Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd

Gweledigaeth

Cenedl Fywiog ac Actif

Cenhadaeth

Grymuso ein haelodau i fod yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus, gan gyfrannu at gymdeithas sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Gwerthoedd

Hyblyg

Fel corff annibynnol i aelodau, gallwn ymateb i'r heriau rydych chi'n eu hwynebu, cyn iddynt ddod yn flaenllaw yn eich meddwl yn aml hyd yn oed

Cydweithredol

Rydym yn creu cyfleoedd ystyrion gyda chysylltiadau newydd, ac yn cryfhau perthnasoedd presennol er budd chwaraeon yng Nghymru

Dibynadwy

Gan weithio i'r safonau uchaf, rydym yn ymdrechu i gynnal hyder yr aelodau ac integriti Cymdeithas Chwaraeon Cymru



Nodau Strategol

Ein Pwrpas: Darparu llais annibynnol a chyfunol i'r sector, gan hyrwyddo'r rôl y mae'n ei chwarae a'r elw a ddaw yn sgil buddsoddi ynddo.

Helpu i feithrin gallu a llywodraethu da, gan sicrhau gwydnwch ein haelodau drwy eu cefnogi i ddod yn gryfach, yn fwy llwyddiannus ac yn gynaliadwy drwy ddarparu ystod eang o wasanaethau busnes.

I GYFLAWNI HYN, MAE GENNYM DRI NOD CRAIDD:

Cydweithredu

Yn y WSA, rydym yn gwerthfawrogi partneriaeth a'r gallu i gysylltu ein haelodau â phartneriaid sy'n gallu ychwanegu gwerth at y sector a helpu chwaraeon i ffynnu.

Datblygu

Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein gwasanaethau i aelodau. Bydd gwneud hynny'n helpu'r WSA i dyfu. Mae cydweithredu parhaus yn allweddol i gynyddu gwydnwch i ni ein hunain ac i'n haelodau.

Hyrwyddo

Ni yw llais unedig ac annibynnol Chwaraeon; rydym yn hyrwyddo gwerth y sector a rôl chwaraeon ym mywyd Cymru. Byddwn bob amser yn gweithredu er budd gorau ein sector, gan hyrwyddo'r ffordd rydym yn cydweithio i wella iechyd a lles ein cenedl.



Gwobrau 2026

Ym mis Mehefin 2026, cynhaliodd y WSA Wobrau'r Diwydiant Chwaraeon am y pedwerydd tro, yng Ngwesty'r Parkgate yng Nghaerdydd.

Roedd y gwobrau'n cydnabod ac yn dathlu cyfraniadau rhagorol ein haelodau dros y cyfnod adrodd, a hefyd yn hyrwyddo'r arferion, y partneriaethau a'r arweinyddiaeth arloesol sy'n sail i gynnydd ar draws y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Drwy rannu enghreifftiau o ragoriaeth ac arfer gorau, mae'r gwobrau'n parhau i gefnogi dysgu, cydweithredu a datblygu ar draws y sector.

Roedd y seremoni'n llwyddiant ysgubol arall, gan roi cyfle gwerthfawr i ddod â'r sector at ei gilydd, cydnabod cyflawniad ac atgyfnerthu'r effaith gadarnhaol y mae sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ei chael ledled Cymru.

"Dim ond nodyn byr o ddiolch, i'r tîm, am y noson hynod bleserus. Niferoedd gwych... fe wnes i lwyddo i siarad gyda chymaint o bobl, yn staff a gwirfoddolwyr, o wahanol sefydliadau, sydd bob amser yn ddefnyddiol ac yn fudd mawr arall yn y digwyddiad. Fe gefais i gyfle hefyd i sgwrsio ag aelodau amrywiol o'r Bwrdd, oedd yn ddefnyddiol iawn."

- Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru

"Diolch i'r WSA am ddigwyddiad gwych. Fe wnaethon ni i gyd fwynhau'r noson yn fawr iawn. Rydw i wrth fy modd ein bod ni wedi gwneud y penderfyniad i fod yn brif noddwyr."

- Melanie O'Connor, Cyfarwyddwr, Hodge Bakshi



Gwobrau 2025-26 Rhestrau byr ac enillwyr

Rhestr fer ar gyfer y Fenter Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau

Noddwyd gan Freedom2hear



Pêl Fasged Cymru

am Bartneriaeth Pêl Fasged Cymru a'r Guardian Ballers:
Prosiect Genesis

Cynghrair Pêl Droed Holl Anabledd De Cymru

Sport Diversity Cymru

Gwobrau Chwaraeon Amrywiaeth Ethnig Cymru (WEDSA) 2025

Rhestr fer y wobr Ymrwymiad Gorau i'r Iaith Gymraeg

Noddwyd gan Hodge Bakshi



Chwaraeon Anabledd Cymru

Ymadroddion Defnyddiol ar gyfer Hyfforddi Tairieithog

Triathlon Cymru

Tri Dewi

Golff Cymru

Ein Hymrwmiad i'n Hiaith

Rhestr fer y wobr Menter Effaith Gymdeithasol Orau

Noddwyd gan Sportscover Europe



Clwb Rygbi'r Dreigiau

Norgine/Movicol: Darpariaeth Dreigiau Iach

Gwella

Datblygiad Chwaraeon Gwella - Ffit, Wedi'ch Bwydo a Choch

Pêl Droed Stryd Cymru

Rhestr fer y wobr Menter Orau i Hyrwyddo Merched mewn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Noddwyd gan Howden



Golff Cymru

am Waddol Pencampwriaeth Agored y Merched AIG

Cymru Football Foundation a Chymdeithas Bêl Droed Cymru

Yr Amgylchedd Iddi Hi + Gwaddol WEURO 2025

Criced Morgannwg

Merched Morgannwg: Glasbrint Rhanbarthol ar gyfer Proffesiynoldeb a Chyfranogiad

Rhestr fer y wobr Menter Cynaliadwyedd Orau

Noddwyd gan Floodlighting & Electrical Services



Cymdeithas Bêl Droed Cymru

Bioamrywiaeth, Natur a Lles CBDC

Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

Menter Antur Amgylcheddol

Golff Cymru

"Lle i Natur"

Rhestr fer y wobr Menter Gydwethredol Orau (Cyfranogiad, Nawdd neu Ymgysylltu ag Aelodau).

Noddwyd gan Sport:80



Gemau Cymranwlad Cymru

LeadHership gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ac RBC
Brewin Dolphin

Chwaraeon a Hamdden Actif

Grymuso Ieuenctid

Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl Droed Dinas Caerdydd

Caerau Kicks

Rhestr fer ar gyfer y Wobr Arloesi Orau

Noddwyd gan Hugh James



Bocsio Cymru

Bocsio Addasol VR

Exist SkatePark a Cerebra

Prosiect Sglefrfyrdio Anabledd SkatePark

Badminton Cymru

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Badminton Cymru Dan Arweiniad Plant

Rhestr fer y wobr Twf Busnes Gorau

Noddwyd gan 2buy2



Criced Morgannwg

Manteisio ar Fuddsoddiad Masnachfrait Tân Cymru

MyRounders

Cynyddu Mudiad Chwaraeon Cymdeithasol Cymru

Chwaraeon a Hamdden Actif

Twf Busnes yn Narpariaeth Llanelli

Rhestr fer y wobr Ymgyrch Fwyaf Dylanwadol

Noddwyd gan Mentera



Athletau Cymru

Yr Ymgyrch Hawlio'r Nos

Pêl Fasged Cymru

Ymgyrch y Chwiban Goch: Diogelu a Chefnogi Dyfarnwyr Ifanc

Badminton Cymru

"Allwch Chi Reoli?"

Perfformiad

Gweithgareddau craidd

Aelodaeth yn ystod 2025-26

156 o sefydliadau

Incwm aelodaeth

£60,737

Incwm Aelodaeth Uwch i gefnogi gwasanaethau a rennir

£190,886

Incwm masnachol i'w ailfuddsoddi mewn gwasanaethau i aelodau

£36,747

Incwm Hyfforddiant ac Addysg

£8,445

- Partneriaeth fasnachol newydd gyda Fleet EV a Freedom2Hear. Hefyd, adnewyddwyd contractau gyda Floodlighting & Electrical, Hugh James, Sportscover Europe ac Ambiwlans Sant Ioan Cymru.
- Cyflwynwyd tystiolaeth gennym i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru ar ran y sector ar nifer o faterion – gan gynnwys Cyllideb Llywodraeth Cymru ac effaith toriadau ar y sector.
- Mae ein holl waith eiriolaeth yn cael ei gyllido'n annibynnol drwy ein gweithgareddau masnachol a'n partneriaethau.



91%* o Foddhad Ymhlith Aelodau

0.65%* Cynnydd o yn nifer yr Aelodau ers 2024/25

92%* o Gadw Aelodau*

142%* Cynnydd o yn nifer yr Aelodau ers 2017/18

*Yn seiliedig ar arolwg annibynnol a gynhaliwyd ar ein rhan gan Pollen Shop Ltd

Perfformiad

Gwasanaethau a Rennir i Aelodau

- Mae ein Gwasanaethau a Rennir yn parhau i ddarparu cefnogaeth fusnes o ansawdd uchel a chost-effeithiol i aelodau, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gweithgareddau chwaraeon a threfniadaeth craidd.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom ddarparu 30 o wasanaethau Aelodaeth Uwch, sy'n fwy nag erioed, ar draws meysydd allweddol, gan gynnwys Cynnwys a Chyfathrebu, Cyllid, a Diogelu.
- Ym mis Ionawr 2025, lansiodd ein gwasanaeth Gweinyddiaeth Uwch newydd, a ddefnyddiwyd gan dri sefydliad sy'n aelodau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Mae'r galw am y gwasanaethau hyn wedi parhau'n gryf, gydag adborth yr aelodau'n gyffredinol gadarnhaol ac yn tynnu sylw at ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd ac ymatebolrwydd ein tîm.
- Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, nad oedd ein gwasanaeth Cyllid yn bodloni ein disgwyliadau ein hunain na disgwyliadau ein haelodau yn gyson yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd heriau adnoddau a baich gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â chroesawu cleientiaid newydd. Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau hynny a barhaodd i ddefnyddio'r gwasanaeth wrth i ni bontio i dîm newydd, ac rydym yn diolch iddynt am eu cefnogaeth barhaus a'u hyder o'r newydd.
- Mae ein gwasanaethau hefyd wedi profi'n arbennig o werthfawr yn ystod cyfnodau o drawsnewid sefydliadol, gan gynnig ateb dibynadwy a hyblyg pan mae personél allweddol yn gadael ar fyr rybudd.




Perfformiad

Presenoldeb ar y Cyfryngau, y Cyfryngau Cymdeithasol a'r Wefan

- Mae ein cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y wefan yn parhau i dyfu. Mae nifer ein dilynwyr LinkedIn wedi cynyddu 29% ers y llynedd.
- Mae ein cyfraddau ymgysylltu'n parhau i fod yn ffafrinol ar 9.72%, o gymharu â safonau'r diwydiant o tua 2 i 3%. Mae ein cynnwys yn werthfawr i'n cynulleidfa.
- Y gyfradd agor ar gyfer ein cylchlythyr wythnosol yw 16.4%, o gymharu â safon diwydiant o 39%*. Mae angen adnewyddu fformat ac ymddangosiad y cylchlythyr, ac rydym wedi ymrwymo i wneud hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- Y post cryfaf gennym ar LinkedIn oedd "Tîm Cymru yn Cyhoeddi Gethin Jones fel Chef De Mission ar gyfer Glasgow 2026", a gynhyrchodd 4,181 o argraffiadau a chyfradd ymgysylltu o 7.3%.
- Ym mis Mawrth 2025, gwnaethom benderfyniad strategol i roi'r gorau i'n gweithgarwch ar ein cyfrif X (Twitter gynt), ac nid oes unrhyw gynnwys newydd wedi'i bostio ers hynny.

Daethom i ddiwedd ein cylch strategol yn ystod y flwyddyn ariannol hon a chyhoeddi graffeg gwybodaeth sy'n dangos sut cyflawnwyd amcanion a chmau gweithredu strategol cylch strategol 2022-2025. Mae'r graffeg gwybodaeth ar gael **yma**.

*Y gyfradd agor e-bost gyfartalog ar gyfer y diwydiant "Hamdden, Chwaraeon ac Adloniant", yn ôl EmailTooltester.com, yw 39.13%. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cyffredinol ar draws pob diwydiant, sef tua 21.5% yn ôl Campaign Monitor.



Adborth Aelodau


	BLWYDDYN	CYTUNO’N LLWYR	CYTUNO I RADDAU	DDIM YN CYTUNO NAC YN ANGHYTUNO	ANGHYTUNO I RADDAU	ANGHYTNO’N LLWYR	CYFANSWM YR AGWEDD GADARNHAOL
Byddwn yn argymhell y WSA fel sefydliad gwych i weithio gydag ef	2026	66%	28%	5%	1%	0%	94%
	2025	69%	24%	6%	0%	1%	93%
	2024	66%	22%	10%	2%	0%	88%
	2023	59%	34%	4%	0%	3%	93%
	2022	67%	22%	9%	0%	0%	91%
Mae’r WSA yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel	2026	48%	39%	11%	3%	0%	86%
	2025	49%	31%	17%	0%	1%	80%
	2024	57%	31%	12%	0%	0%	88%
	2023	55%	34%	9%	0%	2%	89%
	2022	59%	41%	0%	0%	0%	100%

Yn seiliedig ar sampl o 63% o aelodau’r WSA

Perfformiad ***Ariannol***

- Mae gweithgareddau'r WSA yn cael eu cyllido drwy gyfuniad o grant craidd gan Chwaraeon Cymru (32.7%), incwm o wasanaethau aelodaeth (35.1%), ac incwm masnachol (8.7%). Roedd grant Chwaraeon Cymru ar gyfer 2025/26 yn £145,374, o gymharu â £147,984 yn 2024/25.
- Parhaodd yr Aelodaeth Uwch i berfformio'n gryf yn ystod y flwyddyn, gan gynhyrchu £190,886 mewn refeniw i'r WSA, o gymharu â £96,136 yn 2024/25. Mae'r incwm ychwanegol hwn wedi cael ei ailfuddsoddi i wella ac ehangu'r gwasanaethau i aelodau.
- Er mwyn cefnogi darpariaeth gyson o'r gwasanaethau a rennir hyn, creodd y WSA bedwaredd swydd lawn amser*, gan adeiladu ar recriwtio tri aelod o staff llawn amser ychwanegol yn ystod y blynyddoedd diweddar wrth i'r rhaglen gwasanaethau a rennir dyfu.
- Mae'r incwm a gynhyrchir drwy Aelodaeth Uwch hefyd yn talu costau gwasanaethau ffeilio rheoleiddiol a ddarperir i aelodau Cyllid Uwch, gan gefnogi cydymffurfiaeth gyfreithiol, tryloywder, cysondeb, a llywodraethu corfforaethol cadarn ar draws y sector.

* Uwch Swyddog Cyllid, sy'n gyfrifydd cwbl gymwys a phrofiadol



Perfformiad Ariannol

- Adroddodd y WSA ddiffyg o £5,320 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo gwarged wedi'i gyllidebu o £6,717 i wrthbwysu'r diffyg bach a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, costau pontio staff a threuliau recriwtio annisgwyl oedd y prif ffactorau a gyfrannodd at yr amrywiad.
- Mae gan y WSA gronfeydd wrth gefn o £94,182, sy'n is na'r lefel darged a bennwyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac a nodwyd ym Mholisi Cronfeydd Wrth Gefn y WSA.
- Mae'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn parhau i ddarparu clustog ariannol cadarn, gan alluogi'r Gymdeithas i reoli heriau ariannol annisgwyl ac ymateb i gyfleoedd sy'n codi heb beryglu sefydlogrwydd ariannol. Mae hefyd yn helpu i gynnal a chryfhau hyder rhanddeiliaid, yn enwedig ymhlith ein haelodau.
- Mae cyfrifon blynyddol llawn y Gymdeithas ar gael **yma**

* Uwch Swyddog Cyllid, sy'n gyfrifydd cwbl gymwys a phrofiadol



Busnes ***Gweithredol***

Busnes sy'n parhau i weithredu

Yn ystod y cyfnod adrodd, adolygodd y cyfarwyddwyr Bolisi Cronfeydd wrth Gefn y sefydliad, sy'n nodi gweithdrefnau clir ac yn diffinio ystod ar gyfer cronfeydd wrth gefn rhwng lefelau cysur isafswm ac uchafswm, gyda lefel darged wedi'i nodi o fewn yr ystod honno.

Oherwydd y gollod a gafwyd yn ystod y flwyddyn, mae lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn ychydig yn is na'r targed. Mae'r cyfarwyddwyr wedi cyllidebu ar gyfer gwarged yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn ac adfer y cronfeydd wrth gefn i'r lefel darged.



Adroddiad Atebolrwydd

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

1. Sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnodion cyfrifo sy'n cydymffurfio ag Adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a
2. Paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun manwl gywir a theg o sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac o'i warged neu ddiffyg ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395, ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â datganiadau ariannol, i'r graddau maent yn berthnasol i'r cwmni.

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn ar gyfer cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 18 Medi 2026 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

S Sanders (Cyfarwyddwr)



Adroddiad **Atebolrwydd**

- Bwrdd gwirfoddol yw bwrdd Chwaraeon Cymru ac mae'n cyfarfod bob deufis fel rheol.
- Cynhelir diwrnod cwrdd i ffwrdd ym mis Ionawr bob blwyddyn. Yn y cyfarfod yn 2026, datblygodd y Bwrdd a'r tîm Gweithredol gynllun strategol newydd y sefydliad. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys y canlynol:
 - Adroddiad ymgynghori'r Aelodau
 - Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd y sefydliad
 - Nodau strategol a chymau gweithredu strategol
 - Lansio strategaeth
- Rydym wedi ymrwymo i adolygiadau llywodraethu mewnol yn flynyddol.
- Mae'r eitemau sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod bwrdd yn cynnwys adroddiad Chwaraeon Cymru, cyfrifon a chyllideb rheoli, cyflawni yn erbyn y strategaeth, rheoli risg a'r gofrestr a'r cynllun gwella llywodraethu.



The Board

			Attendance
Lynn Pamment CBE, Chair	Cadeirydd	Aelod Annibynnol	100%
Damian Phillips, Vice Chair	Is Gadeirydd	Aelod Annibynnol	86%
Clare Jeffries	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Annibynnol	86%
Kami Lamakan	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Annibynnol	86%
Meleri Thomas	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Annibynnol	100%
Mark Tweed	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Annibynnol	43%
Hannah Hopes	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Etholedig, CBDC	86%
Geraint John	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Etholedig, URC	71%
Richard Lancaster	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Etholedig, Gweilch yn y Gymuned	57%
Andrea Ovey	Aelod o'r Bwrdd	Aelod Etholedig, Newport Live	86%

Nodyn: Gwasanaethodd Fergus Feeney fel aelod etholedig o'r Bwrdd tan 1af Mehefin 2025 a mynychodd gyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill 2025, gan gynrychioli presenoldeb o 100% yn yr holl gyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu yn ystod y cyfnod adrodd.

Ymunodd Hannah Hopes â'r Bwrdd ar 12 Mehefin 2025. Ni allai Hannah fynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd oherwydd ymrwymiad blaenorol a oedd wedi'i drefnu cyn ei hethol, ac anfonodd ymddiheuriad yn unol â hynny.



Gweinyddu a Llywodraethu

- Cynyddodd y costau gweinyddol o £27,224 i £29,596 yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, helpodd dull gofalus ac ymwybodol o gostau o weithredu i gyfyngu ar y cynnydd cyffredinol.
- Cyfrannodd pwysau chwyddiant at gostau uwch mewn sawl maes, gan gynnwys premiymau yswiriant, argraffu a deunyddiau ysgrifennu, a gwasanaethau cyfieithu.
- Cynyddodd y costau cymorth a chynnal a chadw TGCh yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y staff a'r gofynion technoleg cysylltiedig.
- Gan wrthbwysu rhywfaint ar y cynnydd hwn, gostyngodd y ffioedd cyfreithiol a chyfrifo o £3,770 i £2,916.



Eiriolaeth

Dylanwad Polisiâu a Chynrychiolaeth Sector

- Ymatebwyd i amrywiaeth eang o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r Senedd, gan gynnwys Cyllideb Ddrafft 2025/26, Cydlyniant Cymdeithasol, Dyfroedd Ymdrochi Glân, Rheoliadau Gofal Plant, a mesurau i atal camfanteisio rhywiol ar blant, gan sicrhau bod barn y sector yn cael ei hadlewyrchu wrth ddatblygu polisiâu.
- Cyflwynwyd sylwadau ar draws y sector i'r Gweinidog ar gyfer Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaethau Cymdeithasol, gan dynnu sylw at effaith gyfunol cyllideb sy'n aros yn ei hunfan a chostau uwch yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ac eiriol dros fuddsoddiad ychwanegol yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru.
- Sicrhawyd cydnabyddiaeth i gyfraniad y WSA yn ystod dadl mewn Cyfarfod Llawn yn y Senedd i ystyried effaith gostyngiadau i'r gyllideb diwylliant.
- Parhawyd i hyrwyddo buddiannau'r aelodau fel cyflogwyr, busnesau a darparwyr gwasanaethau chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden o fewn trafodaethau allweddol ar bolisi a chyllido.



Eiriolaeth

Eiriolaeth Aelodau ac Ymgysylltu Gwleidyddol

- Darparwyd gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd i aelodau ar ddatblygiadau ar draws y Senedd, Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, gan helpu sefydliadau i ragweld ac ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg.
- Gweithiwyd yn agos gydag aelodau unigol drwy gydol y flwyddyn i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd penodol, gan eiriol ar eu rhan lle bo hynny'n briodol.
- Drwy'r rhaglen Aelodaeth Eiriolaeth Uwch, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb a sesiynau briffio'r Bwrdd, gyda ffocws penodol ar baratoi sefydliadau ar gyfer etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.
- Derbyniodd Byrddau ac uwch arweinwyr y wybodaeth sydd ei hangen i asesu risgiau strategol, nodi cyfleoedd a chryfhau ymgysylltu â llunwyr polisïau a rhanddeiliaid.

Digwyddiadau Cymru


- Cynrychiolwyd y sector chwaraeon ar Grŵp Cyngori Diwydiant Digwyddiadau Cymru (EWIAG) Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod safbwyntiau'r sector yn sail i drafodaethau ynghylch polisi a chyflwyno digwyddiadau mawr.
- Gweithiwyd yn agos gyda Rheolwr Digwyddiadau Chwaraeon Rhyngwladol newydd Digwyddiadau Cymru i gefnogi datblygiad, atyniad a chyflwyno digwyddiadau chwaraeon mawr yn llwyddiannus ledled Cymru.

Diogelu mewn Ffigyrau

Mae'r WSA yn cynnig gwasanaethau diogelu i gefnogi'r sector chwaraeon a hamdden i fod yn sector mwy diogel. Rydym yn cynnig archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwasanaeth cymorth y DBS sy'n gwbl ddwyieithog ac yn cael ei arwain gan bobl. Rydym yn cynnig tri chwrs diogelu gwahanol dan arweiniad tiwtor, ac yn ystod y flwyddyn adrodd, lansiwyd ein cwrs diogelu newydd, Oedolion sydd mewn Perygl, sydd hefyd yn cael ei arwain gan diwtor. Roedd ein gwasanaeth diogelu a mwy sydd wedi'i sefydlu, sy'n cynnig pecynnau pwrpasol i aelodau'r WSA yn ogystal â chymorth gweinyddol a pholisi ar gyfer pob mater yn ymwneud â diogelu, yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn adrodd.

Diogelu mewn Ffigyrau...

- Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, cyflawnwyd 24,150 o archwiliadau'r DBS gennym, sy'n nifer mwy nag erioed. Roedd hyn yn cynnwys 3,991 ym mis Medi 2025, ein mis prysuraf erioed, gan ragori'n sylweddol ar y record fisol flaenorol o 2,969 ym mis Medi 2024. Ein record flynyddol flaenorol oedd 21,709 o archwiliadau'r DBS yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Yn ogystal â gwasanaethu'r sector chwaraeon, drwy Vibrant Nation rydym hefyd yn cefnogi sefydliadau nid-er-elw y tu allan i fyd chwaraeon, ac yn gwasanaethu cyfanswm o fwy na 3,000 o gyfrifon gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau CBDC, clybiau URC, clybiau Gymnasteg Cymru a Heddlu Dyfed-Powys hyd yn oed.
- Fe wnaethom ddatblygu sgiliau ein haelodau drwy ddarparu tri chynnis hyfforddi gwahanol: Hyfforddiant Rheolwr Tîm 1, Rheolwr Tîm 2, a Swyddog Lles. Cynhaliwyd 20 o gyrsgau gennym yn ystod y flwyddyn ariannol.
- Darparwyd y gwasanaeth Diogelu a Mwy i chwe Chorff Rheoli Cenedlaethol, gan gynnwys sefydliad newydd sy'n aelod, y Gorfforaeth Dartiau Iau.



Cynaliadwyedd* *Amgylcheddol

Mae'r mesurau a'r prosiectau canlynol ar gyfer lleihau carbon wedi'u cwblhau eleni;

Cydweithredu ac Arweinyddiaeth yn y Sector

- Ffurfiwyd partneriaeth gyda chyflenwyr a darparwyr gwasanaethau cynaliadwy, gan gynnwys Fleet EV, Floodlighting and Electrical, 2buy2, You. Smart.Thing, CalQrisk, a Harlequin Printing and Packaging, i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy i'r sector.
- Cynhaliwyd y Gynhadledd Cynaliadwyedd flynyddol i rannu arferion gorau a hyrwyddo cynaliadwyedd ar draws y sector.
- Sicrhawyd ail rownd o gyllid grant gwerth £100,000 ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd yn y sector drwy ein partneriaeth gydag Admiral.
- Cynhaliwyd ein haelodaeth o'r British Association for Sustainability in Sport.

Mesur ac Adrodd ar Garbon

- Crëwyd cronfeydd data i gasglu a monitro data allyriadau teithio a thrydan, ochr yn ochr â gwybodaeth arall am allyriadau carbon.
- Cynhaliwyd arolwg blynyddol o gymudo'r staff er mwyn gwella dealltwriaeth, ac adroddiad ar allyriadau sy'n gysylltiedig â chymudo.

Teithio a Chludiant Cynaliadwy

- Gweithredwyd Polisi Teithio Cynaliadwy.
- Cynigiwyd Cynllun Beicio i'r Gwaith a Chynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbydau Trydan (EV) i staff.
- Defnyddiwyd technolegau digidol a chyfarfodydd rhithwir i leihau teithio busnes ac allyriadau cysylltiedig.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae'r mesurau a'r prosiectau canlynol ar gyfer lleihau carbon wedi'u cwblhau eleni;

Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Llywodraethu

- Penodwyd Hyrwyddwr Cynaliadwyedd i arwain a hyrwyddo mentrau cynaliadwyedd ar draws y sefydliad.
- Darparwyd hyfforddiant cynaliadwyedd ar gyfer y sector.
- Cyflwynwyd mentrau hyfforddi cynaliadwyedd i staff i godi ymwybyddiaeth ac annog ymddygiadau cynaliadwy.

Lleihau Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau

- Osgoi cynhyrchion gyda gormod o becynnu a, lle bo modd, sicrhau bod y pecynnu'n ailgylchadwy neu'n ailddefnyddiadwy.
- Osgoi plastigau untro a chynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau i leihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Dim ond caffael y deunyddiau a'r cynhyrchion sydd eu hangen, gan leihau gwastraff diangen.
- Annog ailddefnyddio dodrefn, offer TG, cyflenwadau swyddfa ac adnoddau eraill lle bo modd.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

**Cynhadledd y WSA ar Gynaliadwyedd mewn Chwaraeon, 5 Tachwedd 2025,
Rodney Parade, Casnewydd**

Roeddem yn falch iawn o groesawu aelodau, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru ar gyfer trydedd Cynhadledd y WSA ar Gynaliadwyedd mewn Chwaraeon, a gynhaliwyd ar Rodney Parade yng Nghasnewydd.

Daeth y gynhadledd ag arweinwyr y sector, arloeswyr ac ymarferyddion sydd wedi ymrwmo i hyrwyddo cynaliadwyedd ar draws chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru at ei gilydd. Drwy amrywiaeth o gyflwyniadau, trafodaethau a chyfleoedd dysgu a rannwyd, archwiliodd y cynadleddwyr ddulliau ymarferol o weithredu i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol a'r rôl y gall chwaraeon ei chwarae wrth sbarduno newid cadarnhaol.

Daeth y digwyddiad i ben gyda chyhoeddiad gan Michelle Leavesley o Admiral a gadarnhaodd y byddai'r **Gronfa Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon** yn dychwelyd am ail flwyddyn yn dilyn llwyddiant ei blwyddyn gyntaf. Drwy bartneriaeth strategol Admiral gyda'r WSA, sicrhawyd bod hyd at **£100,000 o gyllid** ar gael i gefnogi aelodau'r WSA i gyflwyno prosiectau arloesol a mentrau amgylcheddol sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd ar draws y sector.

Ym mis Ionawr 2026, dyfarnwyd cyllid i bum sefydliad sy'n aelodau o'r WSA. Derbyniodd **Triathlon Cymru (mewn partneriaeth â Nofio Cymru), Clwb Criced Malpas a Sefydliad Clwb Pêl Droed Dinas Caerdydd £25,000** yr un, a dyfarnwyd **£12,500** yr un i **Beicio Cymru ac Actif North Wales**. Bydd y prosiectau hyn yn helpu i sbarduno arloesedd, cefnogi gweithredu amgylcheddol ac arddangos ymrwymiad y sector i greu dyfodol mwy cynaliadwy.

Mae adroddiad llawn ar y digwyddiad i'w weld yma



Cynhadledd Cynaliadwyedd



Staffio

- Yn ystod y flwyddyn, cyflogodd y WSA naw aelod o staff llawn amser ac un rhan amser. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd net o 1.2 swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys penodi Uwch Swyddog Cyllid, sef cyfrifydd cymwys a phrofiadol, i gefnogi twf parhaus ein darpariaeth o wasanaethau a rennir.
- Cyflogodd y Gymdeithas staff dros dro hefyd ar adegau amrywiol drwy gydol y flwyddyn i ddiwallu anghenion ychwanegol o ran adnoddau ac i sicrhau parhad y gwasanaeth yn ystod cyfnodau o fwy o alw.
- Cyfanswm y costau staffio oedd £451,663, gan gynnwys cyflogau, treuliau staff, hyfforddiant, staff dros dro a chostau recriwtio.
- Mae'r cynnydd yn y costau staffio dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fuddsoddiad bwriadol ym model gwasanaethau a rennir y WSA. Mae ehangu ein tîm arbenigol yn ein galluogi i ddarparu cymorth o ansawdd uchel i aelodau, gan helpu'r sector i leihau dyblygu, cyflawni arbedion maint a meithrin mwy o wydnwch mewn amgylchedd gweithredu sy'n dod yn fwyfwy heriol.
- Drwy ymroddiad tîm bach o staff, mae'r sefydliad yn cefnogi 156 o aelodau, 22 o bartneriaid a llawer o randdeiliaid eraill, gan ddarparu ystod eang o wasanaethau strategol, datblygiadol a gweithredol sy'n meithrin capasiti a gallu'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol.



Sylw i Bartner Elusennol

Sefydliad Chwaraeon Cymru



Wedi'i sefydlu gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru ym mis Gorffennaf 2022, mae Mudiad Chwaraeon Cymru (Rhif Elusen 1199523) yn bodoli i helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn sefyllfaoedd lle gallai rhwystrau ariannol atal cyfranogiad fel arall. Gan weithio'n agos gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr y Mudiad, gwnaethom gynydd sylweddol yn ystod y flwyddyn, gan ehangu ein cyrhaeddiad a'n heffaith ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd:

- Sicrhawyd grant o £100,000 gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Arloesi ar gyfer Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau, gan alluogi mwy na 350 o blant a phobl ifanc o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Gyda'i gilydd, cymerodd y cyfranogwyr ran mewn mwy na 21,000 o oriau o chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan ddangos cyrhaeddiad ac effaith sylweddol y rhaglen.
- Llwyddodd y Mudiad hefyd i sicrhau grant o £10,000 gan Ymddiriedolaeth Elusennol Rygbi'r Barbariaid, gan ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer ein gwaith i ddileu rhwystrau sy'n atal cymryd rhan.
- Drwy weithgareddau a digwyddiadau codi arian, cododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru £2,300 i gefnogi amcanion elusennol y Mudiad.
- Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen gychwynnol, aethom ati i sicrhau £100,000 ychwanegol o gyllid cyfatebol gan Sefydliad Moondance. Mae'r buddsoddiad hwn yn ymestyn cyrhaeddiad a gwaddol y rhaglen y tu hwnt i gyfnod grant gwreiddiol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau cymorth parhaus i blant a phobl ifanc ledled Cymru, gyda'r cyllid wedi'i drefnu i gael ei ddefnyddio o fis Ebrill 2026 ymlaen.

Mae'r cyflawniadau hyn yn gamau pwysig tuag at ein huchelgais o sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru'n cael cyfle i brofi manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol, heb ystyried eu hamgylchiadau ariannol.

Reach & Participation



356 children & young people supported



21,091 hours of activity delivered



59.2 hours per child on average



Balanced gender participation
(52% F / 48% M)

Diolch yn fawr i'n haelodau newydd yn 2025/26

CENTRAL
SOUTH ACTIVE
PARTNERSHIP

PARTNERIAETH
ACTIF CANOLBARTH
Y DE



The Fit Group
CIC



Diolch yn fawr i'n holl aelodau

Active4Blood	Mudiad Meithrin	BowlsWales	The Sporting Memories Foundation	GogleddCymruActifNorthWales	Calon Tysul	Wales Touch Association
Conwy County Borough Council	Surf Lifesaving Association of Wales	Esports Wales	Welsh Kabaddi Federation UK	RESOLVEit CIC	Inclusive Skating	Welsh Wrestling
Merthyr Tydfil Leisure Trust	Welsh Athletics	Ospreys in the Community	British Esports (Federation)	United Kingdom Brazilian Jiu Jitsu Association	Skateboard GB	Caving Wales
Squash Wales	Bangor University	Tennis Wales	Game on Wales - Coalfields Regeneration Trust	Welsh Padel Centre	Wales Lacrosse Association	Kensei Ju Jitsu Association United Kingdom
Weightlifting Wales	Dragons RFC	Welsh Fencing	Pickleball Wales	British Mountaineering Council	Welsh Student Sport	Sport Diversity Cymru (WCVA)
Angling Cymru	Mumbles Community Association	Boys and Girls Clubs of Wales	The Yogic Breath	Good Boost	Cardiff Chameleons	Wales Transplant Football Team
Cricket Wales	Swansea University	FF Dancers	Welsh Karate Collective	Rhondda Cynon Taf CBC	International Taekwon-Do Federation	West Wales Sports Partnership Ltd
Mid Wales Sport Partnership Limited	Welsh Billiards & Snooker Association	Paddle Cymru	British Fencing	Urdd Gobaith Cymru	Snowdonia Active	CIMSPA Legacy Leisure
STA (Swimming Teachers' Association)	Basketball Wales	The Black Swimming Association	Genletics Ltd	Welsh Pétanque Association	Welsh Surfing Federation	Sported Foundation
Welsh Amateur Boxing Association	Elite 82	Bridgend County Borough Council	Powys County Council	British Sub Aqua Club	Cardiff City FC Foundation	Wales Veterans' Football Association
Assoc. of British Riding Schools & Livery Yards	My E-motion	Fitness Industry Services	Torfaen Leisure Trust	Halo Leisure	Introsport Trust	World Association of Kickboxing Organisations
Cymru Football Foundation	Swim Wales	Parkour UK	Welsh Karate Governing Body	Rounders Wales	Snowsport Cymru Wales	Commonwealth Games Wales
Monmouth Sports Association	Welsh Curling Association	The Geraint Thomas Cycling Trust	British Horse Ball Association	Volleyball Wales	Wales Netball	Mental Health Football in Wales (MHFW)
Street Football Wales	Baton Twirling Association Cymru	Welsh Gymnastics	Glamorgan County Cricket Club	Byw'n Iach	Welsh Target Shooting Federation	Sports Chaplaincy UK - Wales
Welsh Archery Association	EMD UK	British American Football Association	Pride Sports Cymru	Hoci Cymru	Cardiff Devils Ice Hockey Club	Wales Walking Football Federation
Aura Leisure and Libraries limited	MyRounders Ltd	Football Association of Wales	True Aim Activities	RYA Cymru	Junior Roller Derby Association UK	Ynys Mon Island Games Association
DanceSport Wales	Table Tennis Wales	Pembrokeshire County Council	Welsh Mixed Martial Arts Association (MMA CYMRU)	Wales Deaf Sports	Special Olympics Wales	The Junior Darts Corporation
Mountain Training Cymru	Welsh Dance Theatre Trust Limited (Rubicon Dance)	The Outdoor Partnership	British Horse Society Cymru	Welsh Rugby Union	Wales Rugby League	
Street Games	Beicio Cymru	Welsh Judo Association	GLL - Better	Caerphilly County Borough Council	Welsh Triathlon	
Welsh Association of Motor Clubs	English Ice Hockey Assoc	British Dressage Wales	RBI Wales Baseball & Softball	Impetus Dance	Carmarthenshire County Council - Actif	
Badminton Wales	Newport Live	Freedom Leisure	UK Breakin' National Governing Body	Shin Ghi Tai Aikido Association	Karate Wales Limited	
Disability Sport Wales	Tchoukball UK	Philippa Tuttiett	Welsh Motorcycle Federation	Wales Golf	SportCheer Wales	
	Welsh Darts Organisation		British Martial Arts & Boxing Association	Welsh Schools Football Association		

Diolch yn fawr i'n partneriaid



You. Smart. Thing.





wsa

Welsh Sports Association
Cymdeithas Chwaraeon Cymru

www.wsa.wales

Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru,
Gerddi Sophia,
Caerdydd,
CF11 9SW

E-bost: admin@wsa.wales

Rhif Ffôn: 02920 334970

Dyluniwyd gan

Let's Talk Design.

www.LetsTalk-Design.com